

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2020
2 Tachwedd 2020 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Nia Povey, Glyn Griffiths, Elin Jones, Dion Roberts, Elin Jones, Eleri Owen, Richard Jones

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Dafydd Watts

2. Datgan Diddordeb

Datganodd y Cyngorydd Dafydd Watts ddiddordeb yn eitem 6.1 oherwydd ei fod yn byw dros y ffordd i Gae Isaf Carreg Frech a'r Cyngorydd Dion Roberts oherwydd ei fod yn byw yn Garreg Frech.

3. Ymddiheuriadau

Dim

4. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 5 Hydref 2020

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Dafydd Watts

5. Sgwrs efo Lauren Hill, Y Dref Werdd

Mynychodd Lauren Hill, Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Cymunedol Y Dref Werdd ardal Penrhyndeudraeth. Mae'n gweithio ar brosiect sydd wedi ei ariannu gan y WCVVA i ymateb ar effaith COVID yn y cymunedau. Prif waith y prosiect yw recriwtio gwirfoddolwyr i helpu pobl fregus neu hŷn yn y cymunedau a chefnogi'r gwirfoddolwyr.

Mae'r prosiect yn parhau tan o leiaf mis Ionawr, gyda gobaith o'i ymestyn, ond bydd natur y gwaith yn debygol o newid a bod yn fwy o waith llesiant. Mae'n debyg mai prif effaith COVID yn y cymunedau oedd unigrwydd.

Felly gosodwyd cynllun gefeillio dros y ffôn ar waith, a hyfforddi gwirfoddolwyr i wneud hynny.

Hefyd fe sefydlwyd cynllun cynhwysiant digidol, gyda'r bwriad o fedru rhannu 100 tabled allan mewn 6 mis, ond ar hyn o bryd dosbarthwyd 10 tabled i Dementia Go, ac i 20 o bobol eraill anghenus.

Rhoddwyd grantiau bach ar gyfer prosiectau cymunedol - hyd at £500 - i Gaffi Croesor i gael crochan dân, i Siop a Chaffi'r Garreg i gael seti tu allan.

Problem gyffredin efo'r gwaith a wnaed yw fod llawer o bobl yn rhy falch i dderbyn unrhyw gymorth.

Cyfeiriad hw@dwfwerdd.cymru os am fwy o wybodaeth neu am gynnig cymorth.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion

6.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Trigolion Garreg Frech

Mae llythyr wedi mynd i drigolion Garreg Frech a disgwylir ymateb.

Gofynnwyd i'r Clerc holi Un Llais Cymru am hwylusydd ar gyfer cyfarfod cyhoeddus wedi i Gynefin gwblhau eu Harolwg Anghenion Tai.

6.2 13 Garreg Frech

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu ymhellach at Helen Mary Jones AS a Mabon ap Gwynfor yn holi os yw Cyngor Gwynedd wedi ymateb i'w gohebiaeth, ond fe barheir i ddisgwyl ymateb gan Gyngor Gwynedd er eu bod wedi derbyn llythyr ers dechrau mis Hydref.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo swyddfa Helen Mary Jones AS a Mabon Ap Gwynfor er mwyn gweld a fyddai'n bosibl cael ymateb erbyn y cyfarfod nesaf. Os na fyddai ymateb gan Gyngor Gwynedd erbyn dechrau Rhagfyr, yna cytunwyd y dylid ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gwneud cŵyn swyddogol.

6.3 Y Ganolfan

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu unwaith eto at adran eiddo Cyngor Gwynedd er mwyn eu cael i wneud asesiad o gyflwr Y Ganolfan.

Parheir i ddisgwyl ateb gan adran dreth Cyngor Gwynedd parthed taliadau treth fusnes.

6.4 Mynwent Tan Lan

Bu i'r Cynghorydd Glyn Griffiths a Richard Jones gyfarfod efo Richard Pearson yn y fynwent.

Dangoswyd y coed efo clefyd coed ynn. Wedi trafod y pris cafwyd gostyngiad o £1950 i £1850 a TAW a gwneith dorri hefyd y coed bach a'r tyfiant drain sydd yn rhedeg ar hyd wal top y fynwent a'r goeden sycamorwydden sydd ger mynedfa'r fynwent.

Cytunwyd i gyfarwyddo Richard Pearson wneud y gwaith oherwydd bod y coed yn mynd yn fwy bregus wrth i amser fynd heibio

Cynnig: Dafydd Watts

Eilio: Glyn Griffiths

6.5 Goryrru Llanfrothen

Cafwyd ymateb pellach gan Gyngor Gwynedd.

Ni fydd hi'n bosibl i Gyngor Gwynedd ariannu arwyddion sy'n fflachio oherwydd y gost. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor Cymuned ariannu hyn eu hunain, ond byddai angen ystyried fod costau cynnal a chadw hefyd.

Gwneith Cyngor Gwynedd drafod yn fewnol gosod cyfyngiad o 40 m.y.a. ar y ffordd i mewn i bentref Llanfrothen fel bod ceir yn arafu yn raddol i 30mya yn hytrach nag arafu yn syth o 60 i 30 m.y.a..

Mae cais am osod sribedi mesur cyflymdra ar y ffordd i mewn i Lanfrothen o gyfeiriad Nantmor wedi ei ychwanegu ar restr gosod sribedi Cyngor Gwynedd, ond ni ellir rhoi amserlen o ran pryd y gall hyn ddigwydd.

Awgrymodd Cyngor Gwynedd y byddai'n syniad da gosod fan mesur cyflymder Gan Bwyll ger siop Llanfrothen, a bydd y Clerc yn cysylltu efo nhw i ofyn am hyn.

Trafodwyd gosod dymi wedi ei wisgo fel plismon ger y gofgolofn, oherwydd mae hyn wedi profi yn effeithiol mewn cymunedau eraill. Bydd angen gofyn am farn Ymddiriedolwyr Brondanw cyn gwneud hyn.

6.6 Biniau Halen

Mae Cyngor Gwynedd eisïau gwybod pa finiau halen sydd angen eu llenwi.

Mae biniau Roman Road a rhai Ffordd y Wern yn llawn.

Cytunodd y Cynghorydd Dion Roberts i fynd i edrych ar lefelau gweddill y biniau halen.

6.7 Wal ffordd Croesor

Mae Cyngor Gwynedd wedi gosod conau ger y wal sydd wedi cwmpo ac wrthi'n cysylltu efo'r perchennog i gael y wal wedi ei thrwsio.

6.8 Polisiâu'r Cyngor Cymuned

Mae angen cytuno ar bolisiâu'r Cyngor Cymuned, ac yn arbennig polisi cyflogaeth y Clerc. Fe gynnigwyd mai'r Cadeirydd ddylai fod y rheolwr llinell, gydag is-bwyllgor yn delio efo gwerthuso a chwynion.

Cytunwyd i dderbyn y polisi mewn egwyddor a phenderfynu ar y drefn yn y cyfarfod nesaf.

7. Materion Ariannol

7.1 Cyflog Clerc Hydref 2020 - £214.20

TWE £53.60

7.2 Anfoneb D.E. Williams, gwaith trydan Y Ganolfan £470.00

7.3 Anfoneb Hughes a'i Gwmni Cyf, gwaith plymar Y Ganolfan £264.00

7.4 Anfoneb Dylan Edwards 19 Hydref 2020, torri gwair mynwent, gosod rheiliau newydd ym mynwent Tan Lan, a gwagio biniau £2050

7.5 Anfoneb Dunn & Ellis, 115207, 20 Hydref 2020, £59.40

Cytunwyd i wneud y taliadau uchod.

8. Gohebiaeth

Cronfa Prosiectau Cymuned Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Derbyniwyd er gwybodaeth.

9. Ceisiadau Cynllunio

Cais cynllunio Cae'r Ffynnon Croesor, trosi ac estyn adeilad allanol i gynnwys boiler biomas ar gyfer gwresogi cymunedol. Cynllun Stad Brondanw yw hwn i wresogi tai yng Nghroesor er budd y tenantiaid.

Cytunwyd i gefnogi'r cais

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Llio Griffiths

10. Materion Eraill

10.1` Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol Parc Cenedlaethol Eryri - Ymrwymadau Cynllunio Atodol Drafft

Cytunwyd os byddai gan unrhyw un sylwadau y byddent yn rhoi gwybod i'r Clerc erbyn 13 Tachwedd.

10.2 Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol Gwynedd a Môn

Cytunwyd os byddai gan unrhyw un sylwadau y byddent yn rhoi gwybod i'r Clerc.

10.3 Pont Ysgol Croesor

Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi gofyn am farn o ran peidio gosod pont newydd o faes parcio'r ysgol gan fod yr ysgol bellach wedi cau. Mae'r bont mewn cyflwr gwael a fawr o ddefnydd ohoni.

Penderfynwyd y dylid gosod pont newydd gan fod yna ddefnydd gan y rhai sydd yn defnyddio'r maes parcio ac yn golygu osgoi cerdded ar y ffordd sydd yn gul.

10.4 Arosfan Fysiau

Cytunwyd i ail edrych ar safle arosfan fysiau'r pentref. Mae nifer o blant yn aros am fws wrth dafarn y Ring. Byddai lloches fan hyn yn gwneud synnwyr.

Mae angen ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn a fyddai gosod safle bws yn y fan hyn yn dderbyniol.

10.5 Cyfarfod efo Ymddiriedolwyr Stad Brondanw

Mae Ymddiriedolwyr Stad Brondanw wedi dweud na fyddai'n gyfleus cael cynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned i fynychu'r cyfarfod blynyddol eleni gan fod y cyfarfod yn cael ei gynnal drwy gyfrwng Zoom.

Cytunwyd nad oedd methu cyfarfod oherwydd hyn yn dderbyniol.

Gofynnwyd felly i'r Clerc ysgrifennu at Balfours i ddweud yn awyddus i gael cyfarfodydd efo'r cynrychiolwyr ac yn hapus i wneud hynny drwy gyfrwng Zoom.

10.6 Tir ar les gan Gyngor Gwynedd Llanfrothen

Mae angen trafod sefyllfa'r tir yma yng nghyfarfod Rhagfyr.

10.7 Pont Afon Ceunant

Mae pryder wedi codi am gyflwr y bont. Gofynnwyd felly i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn iddyn nhw ei harchwilio.

10.8 Yes Cymru

Penderfynwyd trafod yng nghyfarfod Rhagfyr gefnogi cynnig i gefnogi Yes Cymru.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell – 1 Chwefror 2021
am 7:30 yr hwyr. Bydd y cyfarfod yma yn gyfarfod blynyddol
hefyd.**